

Datganiad Grant Datblygu Disgyblion (GAD) YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Diben y grant yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GDD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan seilio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwysu ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Ar gyfer **2017-18** rhoddir i Ysgol Uwchradd Bodedern ddyraniad GDD o £118, 450

Yn Ysgol Uwchradd Bodedern mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Ynys Môn a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Mynd i'r afael â rhwystrau dysgwyr at ddysgu a gwella cynhwysiant – swyddog lles, cynhelydd, prynu adnoddau
- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ac ymgysylltiad dysgwyr – Anogwr dysgu PYD CA3 a CA4, gweithgareddau penodol, gwobrau presenoldeb, Clybiau Bro Alaw, Clwb Gwaith cartref / cau'r bylchau, Wythnos sgiliau, profiadau diwylliannol, gwersi ychwanegol, cludiant
- Gwella llythrennedd a rhifedd – cymhorthyddion penodol
- Hyrwyddo ymglymiad teuluol
- Codi presenoldeb a lleihau effaith presenoldeb ar gyrhaeddiad PYD – cymhorthydd presenoldeb, gwobrau

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.